Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

| Rhif y Cylchlythyr: | WGC 011/2013 | Dyddiad cyhoeddi: | 14 / 11 / 2013 |
|---|---|---|---|

| Statws: | Er gwybodaeth |
|---|---|
| Teitl: | Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif. 2) (Cymru) 2013 |

**Cyhoeddwyd gan:**

François Samuel, Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

| Cyfeiriwyd at: | Anfonwch ymlaen at: |
|---|---|
| Aelodau Cynulliad<br>Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymdeithas yr Arolygwyr Corfforaethol Cymeradwy | Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Aelodau<br>Ymarferwyr |


**Crynodeb:**

Mae'r cylchlythyr hwn yn egluro effaith diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Adeiladu gan Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif. 2) (Cymru) 2013 (O.S.2013/2621 (Cy.258)


**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**


| Colin Blick<br>Rheoliadau Adeiladu<br>Llywodraeth Cymru | Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8144<br>E-bost: enquiries.brconstruction@cymru.gsi.gov.uk<br>Gwefan: http://wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?la |
|---|---|


Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif. 2) (Cymru) 2013 (O.S.2013/2621 (Cy.258)
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2621/contents/made/welsh

Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (O.S.2013/747 (Cy.89)
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/747/contents/made/welsh


© Hawlfraint y Goron 2013 WG 19471

**Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif. 2) (Cymru) 2013**

**Cyflwyniad**

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i ddwyn eich sylw at y ffaith bod Atodlen 3 (cynlluniau hunanardystio ac esemptiad o ofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo planiau llawn) i Reoliadau Adeiladu 2010 wedi'i dileu a'i disodli ar 14 Tachwedd 2013 mewn perthynas â Chymru.

2. Gwnaed y rheoliadau diwygio gan Weinidog Tai ac Adfywio Cymru wrth arfer y pwerau yn Neddf Adeiladu 1984.

3. Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at y diwygiadau i Atodlen 3 i Reoliadau Adeiladu 2010 ar gyfer Cymru.

**Disodli Atodlen 3**

4. Mae Atodlen 3 newydd wedi ei rhoi yn lle'r Atodlen 3 flaenorol, ar sail Cymru yn unig.

5. Effaith yr Atodlen 3 newydd yw disodli rhifau blaenorol y rhesi o ganlyniad i ddiwygiadau blaenorol a weithredwyd gan Reoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013.

6. Mae rhifau rhesi 20, 21, 22 a 23 wedi cael eu rhoi yn lle 21, 22, 23 a 24, yn y drefn honno.

7. Mae'r Atodlen 3 newydd yn estyn cwmpas Certsure LLP yng ngholofn 2 rhesi 13 ac 20.

8. Mae'r Atodlen 3 newydd yn ychwanegu BRE Global Ltd at yn rhestr o gyrff a bennir yng ngholofn 2 fel cyrff a awdurdodwyd i gofrestru personau at ddibenion hunanardystio yn rhes 17.

9. Mae'r Atodlen 3 newydd yn ychwanegu British Board of Agrément at yn rhestr o gyrff a bennir yng ngholofn 2 fel cyrff a awdurdodwyd i gofrestru personau at ddibenion hunanardystio yn rhesi 21, 22 a 23.

**Ymholiadau**

10. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 0300 062 8144

E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk.